**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**YNYS MÔN 2026**

**Cystadleuaeth 86 – Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (YC)**

# Un Blaned Gron, Robyn Llwyd ab Owain

Un blaned gron a'i lliwiau drud,
Un blaned gron a gwyn ei byd.
Pob lliw, pob gwawr, pob enfys gain
A phopeth byw, rhaid gwarchod rhain.

Un blaned gron ac ynddi'n stôr
Mae holl amrywiaeth tir a môr,
Pob morfil glas, pob lindys main,
Pob glöyn byw, rhaid gwarchod rhain.

Ond cerdded wnawn ar wydyr brau,
Mae lliwiau'r enfys yn gwanhau.
Pob ffatri, car a mŵg ein byd
Yn lladd y blodau gwyllt i gyd.

Un blaned gron, cofleidiwn hi,
Un blaned gron, rhaid gwarchod hi.
Pob lliw, pob gwawr, pob enfys gain
A phopeth byw, rhaid gwarchod rhain!